Cain ac Abel

Genesis 4: 1-15

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Genesis 4: 1-15		
1	Roedd gan Adda ac Efa ddau fab - Cain ac Abel.		
2	Tyfodd Abel i fod yn fugail, ond roedd Cain yn trin y tir.		
3	Adeg y cynhaeaf daeth Cain â peth o gynnyrch y tir i'w roi yn offrwm i'r ARGLWYDD. Daeth Abel â rhai o ŵyn cyntaf y praidd, a rhoi'r rhai gorau yn offrwm i Dduw.		

4	Roedd Abel a'i offrwm yn plesio'r ARGLWYDD, ond wnaeth e ddim cymryd sylw o Cain a'i offrwm. Roedd Cain wedi gwylltio'n lân.	
5	Dyma'r ARGLWYDD yn gofyn i Cain, “Ydy'n iawn dy fod ti wedi gwylltio fel yma? Pam wyt ti mor ddig? Os gwnei di beth sy'n iawn bydd pethau'n gwella. Ond os na wnei di beth sy'n iawn, mae pechod fel anifail yn llechu wrth y drws. Mae am dy gael di, ond rhaid i ti ei reoli.”	
6	Un diwrnod dwedodd Cain wrth ei frawd, “Gad i ni fynd allan i gefn gwlad.”	
7	Pan oedden nhw allan yng nghefn gwlad dyma Cain yn ymosod ar ei frawd Abel a'i ladd.	
8	Wedyn dyma'r ARGLWYDD yn gofyn, “Ble mae Abel, dy frawd di?”	

9	Atebodd Cain, “Dw i ddim yn gwybod. Ai fi sydd i fod i ofalu am fy mrawd?” A dyma'r ARGLWYDD yn dweud, “Beth yn y byd wyt ti wedi'i wneud? Gwranda! Mae gwaed dy frawd yn gweiddi arna i o'r pridd. Melltith arnat ti. Rhaid i ti adael y tir yma. Byddi'n ceisio trin y tir ond yn methu cael cnwd da ohono. Byddi'n crwydro o gwmpas yn ddigyfeiriad.”	
10	Meddai Cain wrth yr ARGLWYDD, “Mae'r gosb yn ormod i mi ei chymryd! Rwyt ti wedi fy ngyrru i ffwrdd o'r tir, a bydda i wedi fy nhorri i ffwrdd oddi wrthot ti. Bydda i'n crwydro o gwmpas yn ddigyfeiriad, a bydd pwy bynnag sy'n dod o hyd i mi yn fy lladd i.” “Na," medddai'r Arglwydd. "Bydd pwy bynnag sy'n lladd Cain yn cael ei gosbi saith gwaith drosodd.”	
11	A dyma'r ARGLWYDD yn marcio Cain i ddangos iddo na fyddai'n cael ei ladd gan bwy bynnag fyddai'n dod o hyd iddo. Felly aeth Cain i fyw i wlad Nod i'r dwyrain o Eden.	
12	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible Illustrations These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by Freebibleimages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence. www.freebibleimages.org